

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod arbennig o bell a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Mr. R. Hendicott (Cadeirydd); Mrs. L. Tinsley (Is-Gadeirydd); Mrs. P. Hallett a Mr. G. Watkins (Aelodau Annibynnol); Y Cynghorydd M. Cuddy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned), Y Cynghorwyr: Ms. R.M. Birch, B.T. Gray ac A.R. Robertson (Cyngor Bro Morgannwg).

226 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

227 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Mr. R. Alexander.

228 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai, 2021 fel cofnod cywir.

229 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

230 CAIS AM GANIATÂD (SM/PGCD) –

Roedd Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 yn caniatáu i'r Aelodau wneud cais i'r Pwyllgor Safonau i siarad am, ac os yw'n briodol, i bleidleisio ar faterion na fyddent fel arall yn gallu siarad amdanynt neu bleidleisio arnynt neu aros yn yr ystafell wrth iddynt gael eu trafod oherwydd buddiannau rhagfarnus. Tynnodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw geisiadau wedi'u derbyn mewn pryd ar gyfer y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw geisiadau

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

231 SYLWADAU YNG NGHYFARFODYDD PWYLLGOR Y CYNGOR TREF A CHYMUNED (SM/PGCD) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau am y sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau Annibynnol yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Dywedodd Mrs. Tinsley, oherwydd anawsterau technegol gyda'r cyswllt a ddarparwyd gan y clerc yn Sain Tathan, nad oedd wedi llwyddo i gymryd rhan yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Sain Tathan ym mis Gorffennaf.

Dywedodd Mrs. Hallett ei bod wedi bod yn amharod i fod yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Penllyn a gynhaliwyd mewn neuadd gymunedol oherwydd y pandemig.

Dywedodd Mr. Watkins ei fod wedi mynd i gyfarfod rhithwir Cyngor Cymuned Ewenni ar 9 Mehefin 2021 a oedd wedi bod yn gyfarfod a reolwyd yn dda gyda'r Cadeirydd dan reolaeth.

Yn absenoldeb Mr. Alexander, dywedodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd wrth y Pwyllgor fod Mr Alexander wedi mynd i gyfarfod rhithwir Cyngor Cymuned Llanbedr-y-Fro ar 14 Mehefin, 2021 a bod y cyfarfod wedi'i reoli'n dda heb unrhyw faterion i'w hadrodd.

Yn ystod y drafodaeth, derbyniwyd pe bai'r Aelodau'n anghyfforddus wrth fynd i gyfarfodydd corfforol yn ystod y pandemig, yna byddai arsylwadau o gyfarfodydd o'r fath yn cael eu gohirio hyd nes y clywid yn wahanol.

Nodwyd nad oedd rhai cyfarfodydd Cyngor Cymuned wedi'u harsylwi eto ac felly cytunwyd y byddid yn arsylwi ar y rhain lle bo hynny'n bosibl yn dilyn y toriad. Yna

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y diweddariadau llafar a roddwyd yn y cyfarfod parthed yr arsylwadau a wnaed gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael eu nodi.
- (2) BOD Prif Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu ag Aelodau Annibynnol i sicrhau bod unrhyw ymweliadau arsylwi gan y Cyngor Tref a Chymuned sy'n weddill yn cael eu cynnal erbyn mis Tachwedd 2021.
- (3) BOD y bwriad i barhau i arsylwi ar gyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned a Chyngor Bro Morgannwg gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael ei nodi a bod amserlen ymweliadau bellach yn cael ei llunio yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Wedi ystyried yr arsylwadau a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.

232 DIWEDDARIAD CYNNYDD YN DILYN CYFLWYNO ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL (SM/PGCD) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, sydd wedi'i atodi, wedi rhoi trosolwg o'r broses o ran arsylwadau Aelodau Annibynnol cyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chynghorau Tref a Chymuned ynghyd â throsolwg o'r trafodaethau a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng y Swyddog Monitro a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned. Cafodd yr adroddiad ei groesawu hefyd gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a oedd wedi argymhell wedyn, fel yr amlinellir ym mharagraff 2.3 yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau, y dylid cyflwyno diweddariadau pellach ar arsylwadau yn y dyfodol yng nghyfarfodydd yn y dyfodol yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad, yr Atodiad ac argymhelliad y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol fel y cyfeirir ato ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad yn cael eu nodi.
- (2) Y trefnir cyflwyno adroddiad cryno o'r pwyntiau dysgu allweddol o'r arsylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned, y meysydd i'w gwella a awgrymwyd a'r gwaith o gyflwyno adroddiad adolygu blynyddol a chyfleoedd meincnodi yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol ar ôl cwblhau'r ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned sy'n weddill erbyn mis Tachwedd 2021.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r Atodiad.
- (2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

233 ADOLYGIAD FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL (SM/PGCD) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am drafodaeth a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021 hyd yma mewn perthynas â'r adolygiad sy'n cael ei gynnal o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru. Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro, wrth gyflwyno'r adroddiad, fod adroddiad ar yr adolygiad annibynnol yn debygol o fod ar gael erbyn hydref 2021. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro wedi cyfarfod â Richard Penn, a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr adolygiad, ar 22 Mehefin 2021. Amlinellodd paragraff 2.2 yr adroddiad y trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod hwnnw.

Dyweddod y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod, yn ei farn ef, wedi bod yn gyfarfod cadarnhaol a'i fod yn teimlo bod Mr. Penn wedi cael argraff dda ar y fenter o arsylwadau'n cael eu gwneud gan Aelodau Annibynnol, y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Safonau.

Tynnodd y Cynghorydd Cuddy sylw at bwynt bwled olaf y trafodaethau ym mharagraff 2.2 yr adroddiad gan ddweud y byddai angen rhoi sylw dyledus i'r amser a gymerir i gwblhau ymchwiliadau wrth roi fwy o bwerau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) BOD adroddiad diweddarau pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl derbyn adroddiad a/neu unrhyw ganfyddiadau sy'n ymwneud â'r adolygiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Rhoi gwybod i'r Aelodau o'r adolygiad o'r Fframwaith Moesegol yng Nghymru a chyfarfod diweddar a gynhaliwyd gyda'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Dirprwy Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau gyda'r Ymgynghorydd Annibynnol.

234 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) –

Amlinellodd yr adroddiad y byddai'r Swyddog Monitro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod dan Ran II o'r agenda mewn perthynas â gohebiaeth ddiweddar a materion sy'n codi yn unol â gweithdrefnau'r Ombwdsmon a oedd yn gyfrinachol eu natur.

Roedd yr eitem yn eitem sefydlog ar yr agenda er mwyn i'r Swyddog Monitro allu arfarnu'r Aelodau fel y bo'n briodol.

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, gan ystyried y byddai diweddariad am yr ohebiaeth a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi o dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried o dan Ran II yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu Aelodau'r Pwyllgor.

235 UNRHYW EITEMAU ERAILL Y MAE'R CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EU BOD YN RHAI BRYD –

PENDERFYNWDYD – BOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater bryd am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd cofnodion yn cael ei ystyried.

236 ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN ERBYN CYNGHORYDD A MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR CYMUNED B (SM/PGCD) –
(Bryd oherwydd yr angen i ystyried cyn y cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau)

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'w ystyried, dan orchudd yr adroddiad Rhan II cysylltiedig ar y mater hwn yn ddiweddarach ar yr agenda, gopi o'r Adroddiad ar Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwyn yn erbyn y Cyngorydd A o Gyngor Cymuned B ac i alluogi'r Pwyllgor Safonau i wneud penderfyniad cychwynnol o ran a oedd tystiolaeth bod y Cyngorydd A wedi methu, neu o bosibl wedi methu, i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned B.

PENDERFYNWDYD – BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a bod yr argymhellion a'r adroddiad yn cael eu hystyried mewn cysylltiad ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach yn yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn ystyried adroddiadau Rhan I a II gyda'i gilydd.

237 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWDYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

238 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Fel yr amlinellwyd yn Rhan I o'r agenda, cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau bod eitem sefydlog yn ymddangos ar agenda'r Pwyllgor er mwyn i'r Swyddog Monitro allu dweud wrth Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar unrhyw faterion sy'n codi, gyda'r eitemau'n aros yn gyfrinachol eu natur yn unol â gweithdrefn yr Ombwdsmon.

Felly, rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddiad llafar i'r Pwyllgor ar ohebiaeth gyfrinachol ddiweddar gyda'r Ombwdsmon. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r wybodaeth a roddwyd yn y cyfarfod,

PENDERFYNWYD – BOD yr wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn cael nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.

239 UNRHYW EITEMAU ERAILL Y MAE'R CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EU BOD YN RHAI BRYS –

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd cofnodion yn cael ei ystyried.

240 ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN ERBYN CYNGHORYDD A MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR CYMUNED B (SM/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 18C) –

(Brys oherwydd yr angen i ystyried cyn y cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau)

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'w ystyried gopi o'r Adroddiad ar Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd A o Gyngor Cymuned B ac i alluogi'r Pwyllgor Safonau i wneud penderfyniad cychwynnol o ran a oedd tystiolaeth bod y Cynghorydd A wedi methu, neu o bosibl wedi methu, i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned B.

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLLID penderfynu y dylid rhoi cyfle i'r Cynghorydd A gyflwyno sylwadau mewn cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw gŵyn y mae wedi methu, neu a allai fod wedi methu, â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned B.

(2) Y DYLLID gofyn i swyddog ymchwilio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fynychu cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol yn unol â Rheoliadau 8 (3A) ac 8 (3C) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i gwblhau dogfen ddrafft yn nodi'r honiadau i'w cymeradwyo gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

(4) BOD cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol i ystyried y mater yn cynnwys 5 Aelod o'r Pwyllgor Safonau i gynnwys 3 Aelod Annibynnol, Cyngorydd Bro Morgannwg a chynrychiolydd y Cyngorydd Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

(3) Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Safonau allu ystyried a chymeradwyo dogfen honiadau ddrafft.

(4) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad.